**Pwyllgor Datblygu Economaidd** **EDC 04-02 (draft min)**

**COFNODION**

**Dyddiad** 13 Chwefror 02
**Amser** 2.00 – 5.30pm
**Lleoliad** Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd

**Presenoldeb**

| **Aelodau** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Alison Halford | Delyn |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Chris Chapman | Cwm Cynon |
| David Davies | Mynwy |
| Ron Davies | Caerffili |
| Mike German | Dwyrain De Cymru |
| Christine Gwyther (Cadeirydd) | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Brian Hancock | Islwyn |
| Rhodri Morgan (Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd) | Gorllewin Caerdydd |
| Dafydd Wigley | Caernarfon |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| David Pritchard | Cyfarwyddwr, Datblygu Economaidd |
| Ron Loveland | ISG |
| Mike Phelps | EcAD |
| Steve Marshall | Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol |

**Yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| Jake Chapman | Ymgynghorydd Arbenigol ar yr Adolygiad o Ynni |
| Steve Taylor | Cadeirydd, Bwrdd Rheoli – The Severn Tidal Power Group |
| Dr. Tom Shaw | Ymgynghorydd, Shawater Cyfyngedig |

**Ysgrifenyddiaeth**

| | |
|---|---|
| John Grimes | Clerc |
| Sian Wilkins | Dirprwy Glerc |

**Eitem 1: Sylwadau agoriadol y Cadeirydd.**

1. Gwnaethpwyd datganiadau o fuddiant gan Christine Gwyther y mae ei chymar yn berchen ar fusnes ymgynghoriaeth, gan Dafydd Wigley sydd yn gyfarwyddwr ar gwmni bach a chan Brian Hancock sydd yn gweithio fel ymgynghorydd ar Iechyd a Diogelwch.

**Eitem 2: Adolygiad o Ynni – Morglawdd Hafren**

1. Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau y dylid ystyried hyn yn drafodaeth ragarweiniol a'i bod hi a Chadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth wedi canfod yr angen i drafod y prosiect ar y cyd yn y dyfodol.
2. Rhoddodd Steve Taylor gyflwyniad byr i'w bapur gan bwysleisio y byddai Morglawdd Hafren yn ychwanegu at amrywiaeth y cyflenwad ynni yng Nghymru ond dywedodd, o ystyried yr amser ar gyfer adeiladu, na fyddai'n cyfrannu at dargedau 2010 ond y gallai fod ar gael erbyn 2015. Dywedodd, gan y byddai'n gostwng y llanwau uchaf yn yr aber, y byddai o gymorth i liniaru'r erydu cynyddol ar yr arfordir a'r llifogydd a achosir gan y cynhesu byd-eang. Ychwanegodd y dylid ystyried y Morglawdd yn amddiffynfa rhag llifogydd ac yn gynhyrchydd pwer.
3. Dywedodd Steve Taylor wrth yr Aelodau fod yr Adran Masnach a Diwydiant wedi gofyn i'r Severn Tidal Power Group gyflwyno cynigion ar gyfer astudiaeth gwmpasu i ganfod beth a oedd wedi newid ers yr astudiaeth fawr ddiwethaf yn 1989. Yr oedd eu hadroddiad wedi ei gwblhau bellach ac yr oedd i'w gyflwyno i'r Adran Masnach a Diwydiant cyn hir. Yr oedd yr astudiaeth yn argymell 13 o ardaloedd i'w hastudio o'r newydd ac ychwanegodd Tom Shaw fod mwy o ddealltwriaeth bellach o'r materion amgylcheddol nag yr oedd yn 1989.
4. Mynegodd rhai Aelodau bryder y dylai unrhyw astudiaeth newydd geisio osgoi gwrthdaro rhwng datblygu cynaliadwyfel y'i gwelid gan y cynhyrchwyr pwer a'r hyn a welid gan yr asiantaethau amgylcheddol. Mynegwyd pryder hefyd nad oedd Partneriaeth Aber Hafren wedi bod â rhan yn yr adroddiad diwethaf hwn a nododd yr Aelodau yr angen i gael consensws lleol a chynnwys pobl leol. Dywedodd Tom Shaw for ymgynghoriad cynhwysfawr ar yr effaith amgylcheddol wedi bod yn rhan o'r astudiaeth yn 1989 ond y cydnabyddid y byddai'n rhaid i unrhyw astudiaeth newydd ymdrin â'r materion sydd bellach yn amlwg o ganlyniad i'r gydnabyddiaeth gynyddol i'r cynhesu byd-eang.
5. Nodwyd, tra oedd yr astudiaeth yn 1989 wedi ei chychwyn oherwydd y codiad mewn prisiau olew a phryderon ynghylch y cyflenwad, fod y Morglawdd yn fwy

tebygol o fynd ymlaen yn awr i gyflawni amcanion amgylcheddol yn hytrach nag ar sail ystyriaethau economaidd. Yr oedd hyn yn cynnwys amddiffyn amgylcheddol a chyfraniad at ostyngiad mewn gollyngiadau carbon. Dylid ystyried y Morglawdd yn brosiect "budd cyhoeddus" a fyddai'n adnodd i'r byd o ran y cynhesu byd-eang.

6. Dywedodd Steve Taylor y gellid cynhyrchu trydan o'r Morglawdd ar £60 y megawat yr awr ac y gellid ei werthu am £27 y megawat yr awr. Gallai'r ymrwymiad at ffynonellau ynni adnewyddadwy wrthbwyso £30 y megawat yr awr ar y mwyaf, gan adael cost o oddeutu £3 y megawat yr awr y gellid ei phriodoli i'r manteision cymdeithasol ac amgylcheddol. Dylid ystyried hyn yn gost glir darparu amddiffynfeydd rhag llifogydd, a.y.b. Dywedodd hefyd, ar ôl ad-dalu'r costau cyfalaf ymhen tua 60 mlynedd, y byddai costau cynhyrchu'r trydan yn disgyn i tua 1 geiniog y cilowat yr awr.
7. Gofynnodd yr Aelodau a oedd cynllun y Morglawdd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ffordd neu reilffordd ar ei draws a dywedwyd wrthynt fod astudiaeth 1989 yn cynnwys darpariaeth o'r fath ond bod hynny cyn cynnig yr ail bont dros afon Hafren. Wrth benderfynu ar hynny, byddai'n rhaid rhoi ystyriaeth hefyd i'r cynnydd ym maint y llongau sydd yn defnyddio'r aber ar hyn o bryd.
8. Dywedodd Steve Taylor wrth yr Aelodau fod awgrym yn astudiaeth 1989 y byddai'r prosiect, yn ystod ei adeiladu, yn creu tua 35,000 o swyddi ar ei anterth er y gallai llawer o'r rheini fod mewn gweithgynhyrchu oddi ar y safle. Ar ôl ei roi ar waith byddai canlyniadau o'r Morglawdd o ran swyddi ychwanegol yn ardal Glannau Hafren.
9. Gofynnodd yr Aelodau a fyddai'n well gwario'r amcangyfrif o £12 biliwn am y Morglawdd ar amrywiaeth eang o brosiectau ffynonellau ynni adnewyddadwy eraill. Soniwyd hefyd am forlynnoedd llanwol ac yr oedd un Aelod yn meddwl tybed a ddylai'r Cynulliad ystyried cefnogi prosiectau peirianneg sifil i edrych ar y technolegau hyn a rhai eraill tebyg. Dywedodd Steve Taylor nad oedd yn iawn cymharu'r Morglawdd â ffynonellau ynni adnewyddadwy eraill llai. Nid cwestiwn o ba un a oedd un ffurf ar ynni adnewyddadwy yn well nag un arall oedd hyn ond bod rhaid inni leihau gollyngiadau carbon ac, i'r perwyl hwnnw, yr oedd ar y sector cyfan angen cefnogaeth. Nododd hefyd y byddai angen adnewyddu llawer o orsafoedd trydan mawr erbyn 2020. Ychwanegodd ei fod yn amheus o'r economeg a gyflwynwyd gan Gyfeillion y Ddaear mewn perthynas â morlynnoedd llanwol a dywedodd y byddai'n gadael i'r Pwyllgor gael nodyn a fyddai'n amlinellu ei farn. Cwestiynodd un Aelod hefyd ei sylw y byddai angen naw neu 10 o ffermydd gwynt mawr iawn i gynhyrchu cymaint o bwer â'r Morglawdd a chytunodd i ddarparu mwy o fanylion am hynny. **[Cam Gweithredu: S. Taylor]**
10. Holodd un Aelod ynghylch problem llifwaddod yn yr aber a dywedodd fod cynlluniau tebyg ledled y byd wedi methu oherwydd llifwaddodi. Dywedodd Tom Shaw fod swm bach iawn o lifwaddod yn yr aber ac y disgwylid na fyddai croniad sylweddol. Nid oedd yr aber yn agored i ddiraddiant pridd o'r afonydd a oedd yn llifo iddo.

11. Yr oedd yr Aelodau yn bryderus hefyd ynghylch y lefel o lenwad cerrig yr oedd ei angen ar gyfer y prosiect, ond nodwyd bod yr argaeledd yn seiliedig, yn yr astudiaeth flaenorol, ar y chwareli presennol. Byddai angen cael y llenwad cerrig o ffynhonnell a oedd yn agos i fan cynhyrchu'r cesonau; gellid rhoi'r rheini i nofio wedyn i lawr i'r aber. Cytunodd Tom Shaw i ysgrifennu at y Pwyllgor gyda gwybodaeth bellach am hynny. **[Cam Gweithredu: T.Shaw]**
12. Holodd un Aelod a fyddai angen storio dwr i ddarparu diogelwch i'r system. Dywedodd Steve Taylor na ddylid dynodi'r Morglawdd yn gynhyrchydd pwer ysbeidiol gan fod modd rhagfynegi'r hyn a gynhyrchai a byddai'n fuddiol o ran diogelwch y grid. Ychwanegodd hefyd fod dau gyfleuster pwmpstorio yng Nghymru eisoes ac na fyddai angen cynyddu eu gallu oni bai fod y cynhyrchu o ffynonellau ynni adnewyddadwy yn fwy na 10 y cant.
13. Yr oedd peth pryder ynghylch dibynadwyedd y prisiadau ar gyfer y prosiect a chadarnhaodd Steve Taylor y byddai'n rhaid adolygu'r amcangyfrifon cost mewn unrhyw astudiaeth newydd.
14. Wrth derfynu'r drafodaeth, diolchodd y Cadeirydd i'r ymwelwyr am y cyflwyniad defnyddiol iawn i'r pwnc ac awgrymodd y byddai'r Pwyllgor yn dychwelyd at y pwnc gyda Phwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth yn y dyfodol.

**Eitem 3: Adolygiad o Ynni – Adroddiad Drafft ar Ffynonellau Ynni Adnewyddadwy.**

1. Agorodd y Cadeirydd y drafodaeth drwy egluro mai'r papur oedd y drafft terfynol o brif adran adroddiad y Pwyllgor ar ynni adnewyddadwy. Byddai angen i'r fersiwn terfynol gynnwys rhagymadrodd ac atodiadau a oedd yn amlinellu'r cylch gorchwyl, y dull o weithio a'r bobl yr oedd y Pwyllgor wedi siarad â hwy a'u hymweliadau.
2. Yr oedd yr Aelodau yn fodlon ar yr adroddiad at ei gilydd, ac yr oeddent yn ei gael yn ddarllenadwy iawn. Credent ei bod yn bwysig bod y rhagymadrodd yn rhoi ar ddeall eu bod yn edrych ar ffynonellau ynni adnewyddadwy yn gyntaf mewn ymdrech i glirio rhai o'r anawsterau yr oedd buddsoddwyr yn y sector hwn wedi adrodd amdanynt. Yr oedd hefyd yn bwysig sicrhau bod y manteision busnes i Gymru wedi eu nodi'n glir.
3. <u>Adran 1</u>: Yr oedd yr Aelodau yn fodlon ar y cyfan ond teimlent y dylid rhoi gwedd eglurach ar yr ymadrodd "intergenerational and international". Cytunodd yr Aelodau y dylid cynnwys rhestr termau oddi mewn i atodiadau'r adroddiad.
4. <u>Adran 2:</u> Credai'r Aelodau ei bod yn bwysig dweud yn glir bod angen gwelliannau mewn effeithlonrwydd ynni ochr yn ochr â'r cynnydd yn y swm o drydan a gynhyrchid o ffynonellau adnewyddadwy. Byddai newidiadau i'r naill neu'r llall o'r rhain yn effeithio ar y ganran yr oedd yr ynni hwnnw'n ei gynhyrchu yng Nghymru mewn perthynas â defnydd.
5. <u>Adran 3:</u> Trafododd yr Aelodau y tabl ym mharagraff 31 a nodasant ei bod yn ymddangos bod y ffigurau ar gyfer y DU a Chymru yn y ddwy golofn olaf ar ddwy sail wahanol. Er bod y rhain wedi eu cynnwys yn ôl awgrym y Grwp Cyfeirio,

cytunodd yr Aelodau y byddai'n fwy eglur os gwneid hynny yn nhermau cymariaethau bras.

6. Pwysleisiodd yr Aelodau mai'r rheswm pam na ellid edrych ar gostau ffynonellau adnewyddadwy yn unig oedd eu bod yn rhai ysbeidiol at ei gilydd. Yr oedd angen defnyddio amrywiaeth o ffynonellau i sicrhau cyflenwad ynni rheolaidd. Cytunwyd y dylid egluro hyn, a'r materion storio, yn fwy pendant ym mharagraff 33.
7. Ynghylch paragraff 34, cytunwyd y dylid cyfeirio at "oblygiadau economaidd ac amgylcheddol ehangach". Yr oedd angen i baragraff 36 gyfeirio at bolisïau cynllunio a oedd yn datblygu ar hyn o bryd oddi mewn i'r Cynulliad.
8. Adran 4: Trafododd yr Aelodau y targed arfaethedig ar gyfer cyflenwi trydan o ffynonellau ynni adnewyddadwy. Nodwyd y dylid disgrifio targed presennol y Cynulliad o 10 y cant yn un sydd yn ymwneud â "chynhyrchu glân" (h.y. ffynonellau ynni adnewyddadwy ynghyd â thechnolegau glo glân, a.y.b.). Mynegwyd y farn y dylai Cymru osod targed iddi ei hun a oedd yn ymestynnol ac yn fwy nag un 10 y cant y DU. Fodd bynnag, gan gofio y gellid ystumio'r ganran hon ar lefel heblaw un y DU drwy derfynu gallu cynhyrchu o danwydd ffosil, cytunodd yr Aelodau y dylid gosod y targed yn ddiamwys yn nhermau terawatiau yr awr. Yr oedd yr Aelodau'n ansicr o'r lefel briodol ond nodasant gyngor yr Ymgynghorydd Arbenigol fod ffigur o 4 terawat yr awr ar gyfer cynhyrchu trydan a 2 terawat yr awr ar gyfer gwres yn uchelgeisiol dros ben. Nododd yr Aelodau fod yr olaf yn golygu lefel sylweddol o gynhyrchu cnydau ynni yng Nghymru.
9. Wrth derfynu'r drafodaeth, dywedodd y Cadeirydd y byddai'n trefnu i'r adroddiad gael ei adolygu i gymryd y pwyntiau hyn i ystyriaeth ac i roi gwedd eglurach ar y gwahanol dargedau a gynigiwyd. Byddai'r Aelodau yn cael cyfle pellach i'w drafod yn eu cyfarfod nesaf, ac ar ôl hynny gobeithiai y byddai'n bosibl cyhoeddi'r adroddiad ar gyfer ymgynghori.

**Eitem 4: Adroddiad y Gweinidog**

1. Rhoddodd y Gweinidog ddiweddariad byr ar lafar ar faterion a oedd wedi codi ers cynhyrchu ei adroddiad ysgrifenedig.
2. Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch ymchwiliad y Comisiwn Ewropeaidd i'r grant Cymorth Rhanbarthol Dewisol i Ford ym Mhen-y-bont ar Ogwr a'r ansicrwydd yr oedd hyn wedi ei achosi i Gymru ac i'r cwmni. Eglurodd y Gweinidog fod angen cael cymeradwyaeth gan y Comisiwn Ewropeaidd i unrhyw gynigion arfaethedig o Gymorth Rhanbarthol Dewisol yn y sector modurol. Yr oedd hon yn broses anodd a chymhleth weithiau ac yr oedd yn gwneud pob ymdrech i ddarparu'r holl wybodaeth yr oedd ar y Comisiwn ei hangen ac i gyflwyno'r achos yn gryf iawn. Rhoddodd yr Aelodau eu cefnogaeth lawn i'r Gweinidog yn y negodiadau cymhleth hyn.
3. Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Gweinidog nad oedd mewn sefyllfa i wneud sylw ar unrhyw drafodion a gafodd y Swyddfa Gymreig ag Arthur Andersen cyn ffurfio'r Cynulliad. Er hynny, gan gydnabod dymuniad y Pwyllgor i

ymchwilio i hyn, dywedodd y byddai'n darganfod beth oedd y gweithdrefnau priodol. **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]**

4. Cyfeiriwyd at y drafodaeth yn y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a'r cwestiwn ynghylch a oedd Bro Morgannwg yn dymuno cael cynrychiolaeth ar yr Awdurdod Porthladd. Cadarnhaodd y Gweinidog, er ei fod yn credu yn y cyfarfod diwethaf eu bod yn fodlon ar y trefniant presennol, ei fod wedi cael gwybod ers hynny nad oedd hynny'n wir. Argymhellodd y Pwyllgor yn gryf y dylai'r Gweinidog ysgrifennu at yr Awdurdod Porthladd gan bwyso arnynt i ailedrych ar y mater hwn. Dywedodd y Cadeirydd ei bod i fod i ysgrifennu ar ôl y drafodaeth ar Gynllun Busnes yr Awdurdod Porthladd yn y cyfarfod blaenorol ac y byddai'n codi'r mater hwn hefyd. **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd, Y Cadeirydd]**
5. Gwnaeth yr Aelodau sylwadau ar y gwahanol ffigurau yn yr adroddiadau a gyflwynwyd a gofynasant a ellid casglu ar sail y rhain fod y cynnyrch mewnwladol crynswth yng Nghymru yn parhau i ddirywio o'i gymharu â'r DU. Eglurodd y swyddogion y gwahanol ddulliau o ddeillio'r ffigurau hyn, a'r amrediad o wallau samplu. Dywedasant ei bod yn anodd dyfalu ynghylch lefelau cynnyrch mewnwladol crynswth ar sail y rhain. Ychwanegasant fod disgwyl i'r ffigurau am 2000 gael eu cyhoeddi ym Mehefin 2002.
6. Ar fater cyswllt rheilffordd Glyn Ebwy/Caerdydd, cadarnhaodd y Gweinidog fod Railtrack wedi nodi na allai ymdrin â mater yr arwyddion yng Nghyffordd Ebwy yng Nghasnewydd tan 2008. Cododd yr Aelodau bryder ynghylch diogelwch gweithredol y llinell i Gasnewydd ond dywedodd y Gweinidog fod yn rhaid i hynny fod yn fater i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.
7. Mynegwyd pryder ynghylch y dirywiad a adroddwyd yn elw'r Bathdy Brenhinol. Yr oedd yr Aelodau yn meddwl tybed a oedd hyn yn ganlyniad i wneud gwaith sylweddol wrth gynhyrchu Ewros. Dywedodd y Gweinidog nad oedd yn ymwybodol ei fod yn gwneud colled. Er bod hyn yn fater i Ganghellor y Trysorlys yn hytrach na'r Cynulliad, cadarnhaodd y byddai'n ymchwilio i hynny ac yn adrodd i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd. **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]**
8. Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, cadarnhaodd y Gweinidog fod polisi'r Cynulliad ar hysbysebion recriwtio yn cael ei adolygu ar hyn o bryd ar ôl beirniadaeth bod cost yr hysbysebion yn anaddas yn aml i'r swydd a hysbysebid.
9. Cadarnhaodd y Gweinidog ei fod yn deall na fyddai cwymp diweddar Enron yn amharu o gwbl ar gwmnïau yng Nghymru.
10. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor ynghylch gwaith Cyllid Cymru. Dywedodd, gan nad oeddent ond yn weithredol ers cyfnod byr, y byddai'n ymgynghori â hwy i bennu'r amser mwyaf priodol i adrodd. Cytunodd y Gweinidog hefyd i ddarparu diweddariad ar y sefyllfa bresennol ynghylch Cyswllt Busnes. **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]**
11. Ar fater y Panel Ymgynghorol Ymchwil Economaidd, cadarnhaodd y Gweinidog

mai'r unig gydnabyddiaeth a gâi'r aelodau oedd hynny am dreuliau. Ychwanegodd y byddai'r Pwyllgor yn gallu cyflwyno sylwadau i'r Panel ar bynciau penodol ac y câi canlyniad ymchwil a argymhellwyd gan y Panel ac a gytunwyd gan y Cabinet ei adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd.

12. Cyfeiriwyd at eglurhad y Gweinidog yn ei adroddiad ynghylch y penderfyniad i beidio â gofyn i Weinidog y DU am ymchwiliad cyhoeddus mewn perthynas â Chefn Croes. Nodwyd bod gwahanol farnau ar y mater hwn.

**Eitem 5 – Y Flaenraglen Waith Strategol**

1. Gan nodi bod yr amser yn brin, dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Aelodau yn derbyn gwahoddiad i roi eu barn ar y papur drwy e-bost.

**Eitem 6: Cofnodion y Cyfarfodydd Blaenorol**

1. Cytunwyd bod Cofnodion 30 Ionawr yn gofnodion cywir o'r cyfarfod.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**